

ASTUDIAETH ACHOS

CYNLLUN RHEOLI CARBON

“RYDW I’N YMDDWYN FEL PE BAWN I’N GORFOD TALU AM YR YNNI FY HUN”

Mae cartref gofal preswyl yng Ngwynedd wedi elwa ar brosiect sylweddol i uwchraddio'r adeilad, sydd wedi creu amgylchedd byw mwy cyfforddus ar gyfer ei drigolion.

O ganlyniad i osod system boeleri a gwresogi newydd yn Llys Cadfan yn Nhywyn, gellir rheoli tymheredd y cartref oddi ar y safle, sy'n golygu gall staff addasu'r gwres ar-lein eu hunain, neu gysylltu gyda thîm Cadwraeth Ynni Cyngor Gwynedd i newid y tymheredd ar eu rhan.

Roedd yr hen system foeleri, ynghyd â'r ffaith nad oedd yr adeilad mor effeithlon ag y gallai fod, yn ei gwneud yn anodd rheoli'r gwres, ac roedd hyn yn golygu fod dod o hyd i'r balans cywir mewn tymheredd a gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn heriol.

Mae'r cartref yn darparu gofal i bobl hŷn fregus. Oherwydd bod sicrhau bod y trigolion yn gyfforddus yn flaenoriaeth, gosodwyd boeleri newydd effeithlon o fewn yr adeilad fel rhan o Gynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd, sy'n ymwneud ag uwchraddio adeiladau cyhoeddus ar draws Gwynedd er mwyn eu gwneud yn fwy ynni effeithlon.

Fel rhan o'r cynllun, fe gynhaliwyd gwaith i insiweiddio pibellau'r cartref i sicrhau eu bod yn cadw'r gwres i mewn. Fodd bynnag, mae staff hefyd yn awyddus i wneud yn siŵr eu bod yn gydwybodol o ran faint o ynni y maent yn ei ddefnyddio.

Eglurodd y Rheolwr, Helen Jones: “Rydym yn annog staff i geisio arbed ynni ble bynnag sy'n bosib. Mae fy agwedd i'r un fath yn y fan yma ag y mae o gartref - rydw i'n ymddwyn fel pe bawn i'n gorfod talu am yr ynni rydym yn ei ddefnyddio fy hun. Ond, mewn ystyr, mae hynny'n wir - rydym ni i gyd yn talu amdano, felly mae'n bwysig ein bod ni ddim yn ei wastraffu. Os dydi o ddim mewn defnydd, diffoddwch o.”

Yn ogystal â chael gwell balans mewn tymheredd i'r trigolion, mae cyflwyno systemau gwresogi a goleuo mwy effeithlon yn golygu bod y cartref erbyn hyn yn cynhyrchu 26.2% yn llai o allyriadau carbon nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl.



Ers 2005/6, mae defnydd trydan y cartref wedi gostwng 13.5%, tra mae ei ddefnydd nwy wedi lleihau'n sylweddol o 35.8%.

“Rydym wedi gweld gwellhad sylweddol ers i'r systemau newydd gael eu cyflwyno, ac rydw i'n siŵr y byddan ni'n gweld y byddan ni'n gweld gwahaniaeth mwy unwaith bydd ail gyfnod y gwaith o insiweiddio'r pibellau yn cael ei gwblhau,” ychwanegodd Helen. “Hefo'r hen system wresogi, roeddem ni'n ei chael hi'n anodd cael y balans cywir mewn tymheredd ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth.

Wedi i'r gwelliannau gael eu cyflawni, mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn hapus iawn a dydyn ni ddim yn cael yr un problemau - mae'r gwres yn gyson ac yn haws i'w reoli. Ar brydiau, yn enwedig wrth i'r tymheredd gynhesu neu oeri, bydd angen i ni addasu'r tymheredd, ond gellir gwneud hyn yn hawdd.”

Dyweddodd y Cyngorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd: “Y Cynllun Rheoli Carbon yw ein cam allweddol cyntaf tuag at gyflawni ein gweledigaeth o gael sir garbon isel. Wrth fuddsoddi i wneud ein hadeiladau cyhoeddus yn fwy ynni effeithlon, rydym yn helpu i arbed miloedd o dunelli o CO₂ y flwyddyn, yn ogystal â gwneud arbedion sydd werth cannoedd ar filoedd o bunnoedd yn rhan o'r broses.

Fodd bynnag, mae gan staff rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau llwyddiant y Cynllun, wrth fod yn rhagweithiol wrth arbed ynni ble bynnag sy'n bosib. Mae'r tîm yn Llys Cadfan yn esiampl ardderchog o hyn, yn ei ymdrechion i leihau faint o ynni y mae'n ei wastraffu.”

Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Rheoli Carbon, gallwch ymweld â: [https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%
c3%afau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Cynllun-Rheoli-Carbon.aspx](https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Cynllun-Rheoli-Carbon.aspx)

Cyngor Carbon Isel → Gwynedd Carbon Isel

www.gwynedd.gov.uk



CASE STUDY

CARBON MANAGEMENT PLAN

“I ACT AS THOUGH I’M PAYING FOR THE ENERGY WE USE MYSELF”

A Gwynedd residential care home has benefited from a major project to upgrade the building, which has created a more comfortable living environment for its residents.

Installing a new boiler and heating system at Llys Cadfan in Tywyn has meant the home’s temperature can now be monitored and controlled remotely, which means staff are now able to adjust the heating online themselves, or contact Gwynedd Council’s Energy Conservation team to alter the temperature for them.

The old boiler system, coupled with the fact the building was not as efficient as it could be, made it difficult to regulate the heating, which would often make finding the right balance in temperature for service users a challenge.

The home provides care for vulnerable elderly people. With ensuring the comfort of its elderly residents a priority, efficient new boilers were installed within the building as part of Gwynedd Council’s Carbon Management Plan, which involves upgrading public buildings across Gwynedd in order to make them more energy efficient.

As part of the plan, work was also carried out to insulate the home’s pipes to make sure they retained heat. However, staff are also keen to make sure they are conscientious when it comes to how much energy they use.

Manager Helen Jones explained: “We encourage staff to try to save energy wherever possible. My attitude is the same here as it is in my own home – I act as though I’m paying for the energy we use myself. But in a sense, that’s true - we’re all paying for it, so it’s important that we don’t waste it. If it’s not in use, switch it off.”

As well as getting a better balance of temperature for residents, introducing new efficient heating and lighting systems has meant the home now generates 26.2% less carbon emissions than it did 10 years ago.



Since 2005/6, the home’s electricity consumption has decreased by 13.5%, while its gas consumption is down by a remarkable 35.8%.

“There has been a significant improvement since the new systems were introduced, and I’m sure we will see an even greater improvement once a second phase of pipe insulation has been completed,” added Helen. “With the old heating system, we found it could be difficult to get the right balance in temperature for our service users.

“After the improvements, our service users are happy and we no longer have problems – the temperature is steady and easier to control. At times, especially if the weather gets warmer or colder, we will need to adjust the temperature, but this can be done easily.”

Councillor John Wynn Jones, Gwynedd Council’s Cabinet Member for the Environment, said: “The Carbon Management Plan is our vital first step towards achieving our vision of a low carbon county. By investing to make our public buildings more energy efficient, we’re helping to save thousands of tonnes of CO₂ each year, as well as making hundreds of thousands of pounds in savings in the process.

“However, staff also have an important role to play in ensuring the Plan’s success, by being proactive in saving energy wherever possible. The team at Llys Cadfan, in their efforts to minimise the amount of energy they waste, are an excellent example of this.”

For more information about Gwynedd Council’s Carbon Management Plan, please visit:

<https://www.gwynedd.gov.uk/en/Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Carbon-Management-Plan.aspx>